Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar nos Fercher y 26ain o Hydref 2011 am 7.30yh.

Presennol: Y Maer, y Cyng. Julia Jones, Y Dirprwy Faer, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. David Williams
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Charlotte Leadbeater.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu. Cyflwynodd yr SCCH Roger Anthony ei adroddiad i'r Cyngor ar y digwyddiadau canlynol:-

i) Arestiwyd un person am dramgwydd yn erbyn y drefn gyhoeddus ar noson Sioe Llandeilo.
ii) Torrwyd i mewn i sied ar Stryd yr Eglwys, a chafodd y paent a ddygwyd ei daenu ar y ffordd fawr. Daethpwyd o hyd i'r paent ac mae'r tramgwyddwr wedi cyfaddef iddo gyflawni'r drosedd.
iii) Dygwyd rhai poteli o wirodydd o'r seler yn Yr Angel.
iv) Adferwyd peth canabis mewn cyrch ar Prospect House.
v) Gwnaethpwyd cyhuddiad o drais rhywiol. Roedd y personau dan sylw'n adnabod ei gilydd. Adferwyd rhywfaint bach o ganabis o'r adeilad.
vi) Torrwyd i mewn i safle Davies Richards, ni chafodd unrhyw beth ei ddwyn.
vii) Torrwyd i mewn i safle BJP, ni chafodd unrhyw beth ei ddwyn.

Gofynnodd y Cyng. Colin Jenkins i'r Heddlu i fonitro gweithredoedd 'boy racers' o gwmpas y Dref.
Adroddodd y Cyng. Richard Wallace bod rhai cerbydau'n parcio ar y llinellau melyn dwbl ac ar linellau Igam-ogam.

Cof 188/ Hyd / 11 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 28ain o Fedi 2011, yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 28ain o Fedi 2011, yn gofnod cywir gyda'r diwygiad hwn:-
Cof 162/Medi/11. Cyfanswm bil ffôn BT oedd £ 46.88 nid £46.52. Cynigwyd gan y Cyng. Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 12fed o Hydref 2011, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 12fed o Hydref 2011, yn gofnod cywir. Cynigwyd gan y Cyng. Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. David Williams. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 12fed o Hydref 2011, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 189 / Hyd / 11 Materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol

Ynglŷn â Cof 184.2/Hyd /11. Bydd y Swyddog Cyllid yn cadarnhau gydag Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed y rhent cywir sydd i'w dalu i'r Cyngor erbyn y cyfarfod nesaf.

Ynglŷn â Cof 171/Hyd/11. Fe wnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio gadarnhau'r arsylwadau a wnaed yn y cyfarfod safle a gynhaliwyd i ystyried E/25438

Ynglŷn â Cof 163/Medi/11.2 Cafwyd cais gan y Cyng. Ros Bellamy bod y Rheolaethau Ariannol Mewnol, a ddylai fod wedi cael eu hystyried yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Hydref, yn cael eu gosod ar Agenda cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd. Cytunwyd.

Ynglŷn â Cof 169/Medi/11. Cafwyd cais gan y Cyng. Colin Jenkins i lythyr i gael ei anfon, yn gofyn i siopau i beidio â gweini lluniaeth i gwsmeriaid mewn cynwysyddion gwydr, dim ond rhai plastig, er mwyn osgoi damweiniau yn ystod y digwyddiad cynnau goleuadau'r Nadolig. Roedd pawb yn gytûn.

Cof 190/ Hyd / 11 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb

1. Emyr Price, Swyddog Prosiect CSG, ynglŷn â grantiau ar gyfer prosiectau treftadaeth a thirwedd. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn gwahodd Mr Price i annerch cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.
2. Jiwbilî'r Frenhines - canllaw i gyfranogi. Cytunwyd trafod y mater yng Nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio.

Cof 191 / Hyd / 11 Gohebiaeth er gwybodaeth.

1. Un Llais Cymru. Manylion am gyrsiau hyfforddi yn y dyfodol agos. Byddai'r Clerc yn eu dosbarthu i'r aelodau.
2. Crochendy Felingwm, manylion am grochenwaith porslen y Jiwbilî.
3. Non Gwilym, Menter Bro Dinefwr - llythyr o ddiolch am y rhodd tuag at Blas Tywi 2011.
4. Un Llais Cymru – cyfarfod Ardal yng Nglanaman ar yr 2il o Dachwedd 2011. Byddai'r Maer yn mynychu.
5. Sioe deithiol y Ddolen Gymunedol Geltaidd, 10fed o Dachwedd yn y Neuadd Ddinesig. Nodwyd.
6. Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru - Cylchgrawn.

Cof 192 / Hyd /11 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w talu.

Zurich Insurance (digwyddiad Tân Gwyllt)	£ 53.03
Lloyds British Testing (pwyntiau angori goleuadau'r Nadolig)	£ 897.60
Ar y Gair (cyfieithu)	£ 199.95

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu pasio i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid. Byddai pob un o'r rhain yn cael eu talu trwy BACS

Cof 193 / Hyd /11 Doedd dim materion ariannol eraill.

Cof 194/ Hyd /11 I gadarnhau Arsylwadau'r Cyngor Tref mewn perthynas â Chais Cynllunio E/25041

Darllenodd y Clerc adroddiad drafft allan, a baratowyd gan yr is-grŵp Cynllunio. Yn ystod y drafodaeth, derbyniwyd nifer fach o ddiwygiadau i'r adroddiad.
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod yr adroddiad, yn cynnwys y diwygiadau hynny, yn cael ei dderbyn fel arsylwadau'r Cyngor i'w cyflwyno i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Gâr i'w hystyried ar gais cynllunio arfaethedig Sainsbury's. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
Mynegodd y Maer ei diolch i'r is-grŵp a oedd wedi paratoi'r adroddiad, ac i bob un o'r Cynghorwyr a weithiodd yn galed iawn i ystyried y cais cynllunio hwn yn fanwl.

Cof 195/ Hyd /11. Adroddiad y Cynghorydd Sir.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones ei fod yn dymuno cofnodi nad oedd ganddo unrhyw fuddiant i'w ddatgan o ran cais cynllunio Sainsbury's, ac nad oedd o blaid nac yn erbyn y cais.
Treuliodd y CS Jones beth amser yn esbonio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, yr oedd ei gyfnod ymgynghori wedi dod i ben. Dywedodd bod y Cynllun Datblygu Unedol wedi cael ei ddisodli ers 2006.
Cafwyd cais ganddo i gwynion mewn perthynas â sbwriel i gael eu hanfon i'r Gwasanaethau Stryd drwyddo ef ei hun. Roedd ef yn ymwybodol hefyd o'r anawsterau yn rhai strydoedd oherwydd y cynllun parcio newydd i drigolion, ac roedd y Cyngor Sir yn monitro'r sefyllfa yn ystod y cyfnod prawf.

Cof 196/Hyd/11 Materion yn ymwneud â Thrawsgludiaeth a Phriffyrdd.

1. Cau Heol y Brenin dros dro, rhwng y 18fed – 20fed o Dachwedd, yn ystod Gŵyl y Synhwyrau. Nodwyd.
2. Mr & Mrs William Atkins ynglŷn â phroblemau mae trigolion yn eu cael i barcio ar Heol yr Eglwys. Byddai'r Clerc yn anfon copi o'r llythyr i CSG.
3. Mr & Mrs Mitchell ynglŷn â'r arsylwadau mewn perthynas â'r effaith negyddol byddai parcio i drigolion yn ei gael ar ymwelwyr. Byddai'r Clerc yn anfon copi o'r llythyr i CSG.

Cof 197/ Hyd /11 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Cyngor. Dywedodd bod yr holl drefniadau yn eu lle ar gyfer yr arddangosfa Tân Gwyllt. Roedd yswiriant y digwyddiad wedi cael ei ostwng gan £400 gan y Cyngor trwy gontractio'r arddangosfa i Kimbolton. Roedd y rhaglenni i gyd wedi cael eu dosbarthu. Rhoddwyd caniatâd i'r Swyddog Technegol i brynu tarpolin am £21.48, a ellid ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau awyr agored y Cyngor.

Cof 198 / Hyd / 11 Adroddiad y Maer.

Rhoddodd y Maer ei adroddiad ar yr achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis diwethaf.

Cof 199/ Hyd /11 Adroddiadau Eraill.

i) Is-grŵp Tân Gwyllt
Cyflwynodd y Cyng. Ros Bellamy adroddiad oddi wrth yr is-grŵp Tân Gwyllt.
Gwariwyd ar y canlynol

a)	Prynu Tân Gwyllt	£ 3,750
b)	System Sain	£ 60
c)	Llogi byrddau	£ 30
d)	Cludo byrddau	£ 35
e)	Baneri gyda'r dyddiadau newydd	£ 15
f)	Argraffu rhaglenni	£ 690

g) Yswiriant ar gyfer y digwyddiad £ 53.03

Cynhyrchodd hysbysebion ar gyfer y rhaglen refeniw o £1,700.

Paratowyd llythyrau i'w dosbarthu i drigolion cyfagos i Gae William, yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra. Byddai'r Clerc yn dosbarthu datganiadau i'r wasg.

ii) Is-grŵp Goleuadau'r Nadolig

Cyflwynodd y Cyng. Colin Jenkins adroddiad i'r Cyngor. Byddai'r trefniadau terfynol yn cael eu gwneud yn y cyfarfod nesaf.

Cof 200 /Hyd/11 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh.